

Nodiadau athrawon: Beth allwn ni ei ddarganfod am dân gwyllt?

Cyfnod Sylfaen:	
<p>Crynodeb o'r ymholiad: I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol trwy ystyried sut y maent yn gweld ac yn clywed tân gwyllt. Maent yn didoli a dosbarthu amrywiaeth o dân gwyllt a mesur hyd a màs gwahanol dân gwyllt. Mae dysgwyr yn ystyried data a gyflwynir mewn tabl ac yn ei ddefnyddio i lunio pictogram rhyngweithiol. Yn olaf, maent yn ystyried pa gamgymeriadau a wnaed wrth lunio siart bar a roddir, gan ddefnyddio set o ddata a ddarperir.</p>	<p>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh: CS: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Lles Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Fi fy hun a phethau byw eraill</p> <p>FfLIRh: Datblygu ymresymu rhifyddol Defnyddio sgiliau rhif Defnyddio sgiliau mesur: Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd Defnyddio sgiliau data: Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau</p>

<p>oleuadau a welant yn y fideo a sut y maent yn gallu eu gweld. Gofynnir iddynt dynnu llun ac ysgrifennu eu syniadau a hefyd i ystyried o ble arall y daw goleuni a beth fyddai'n digwydd pe na byddai goleuni. Yn yr ail weithgaredd, rhoddir tasg debyg i'r dysgwyr pan y gofynnir iddyn nhw ystyried ffynonellau sain, sut mae sain yn teithio a sut mae'r corff yn clywed seiniau.</p>	
---	--

<p>Sgrin 1</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon mae sgwâr ffynhonnell* sy'n cynnwys clip fideo o arddangosfa tân gwyllt.</p> <p>Gofynnir i'r dysgwyr wyllo'r clip fideo ac i rannu a thrafod eu syniadau ynglŷn â beth sydd yn digwydd. Mae'r sgwâr ffynhonnell yn darparu strwythur fel bod dysgwyr yn ystyried: Beth maen nhw'n ei weld; beth maen nhw'n ei ddyfalu; beth arall maent am ei wybod a sut y byddant yn cael gwybod hyn.</p> <p>Mae dau weithgaredd ar y sgrin. Yn y gyntaf, gofynnir i ddysgwyr ystyried y gwahanol</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried sut y maen nhw'n gweld ac yn clywed tân gwyllt.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf – sgwâr ffynhonnell*.</p>
<p>Sgrin 2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Gofynnir i'r dysgwyr lusgo a gollwng pob tân gwyllt ar raddfa ryngweithiol er mwyn iddynt allu penderfynu'r drefn o'r lleiaf swnllyd i'r fwyaf swnllyd.</p> <p>Yn yr ail weithgaredd, gofynnir i'r dysgwyr lusgo a gollwng pob tân gwyllt i'w didoli yn grwpiau. Gofynnir iddyn nhw ystyried: Pam gwnaethon nhw eu didoli nhw fel hyn?; Sawl tân gwyllt sydd ym mhob grŵp?; Pa enw fyddent yn ei roi i bob grŵp? Pam?; Pa un yw'r roced hiraf?; Pa un yw'r roced fyrraf?</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn didoli ac yn dosbarthu amrywiaeth o dân gwyllt ac yn mesur hyd a màs gwahanol dân gwyllt.</p>

<p>Sgrin 3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon mae tabl o ganlyniadau yn dangos hoff dân gwyllt dosbarth o blant. Yn y tabl mae llun o bob tân gwyllt ac fe gynrychiolir pob plentyn gan lun wyneb.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio'r lluniau yn y tabl i'w helpu i lunio pictogram sy'n dangos yr wybodaeth hon. Mae cwestiynau yn cefnogi dysgwyr wrth iddynt fynd drwy'r dasg.</p> <p>Mae gweithgaredd pellach yn annog dysgwyr i ystyried eu hoff dân gwyllt ac yn eu hannog i gasglu gwybodaeth o'u dosbarth eu hunain ac i gofnodi ac arddangos eu canlyniadau.</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried data a gyflwynir mewn tabl a'i ddefnyddio i dynnu llun pictogram rhyngweithiol.</p>
--------------------	--	--

Sgrin 4	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Teitl y sgrîn hon yw 'Ble mae'r camgymeriadau yn y siart bar?' Darperir tabl o ganlyniadau yn dangos hoff dân gwyllt dosbarth o blant. Yn y tabl mae lluniau o dân gwyllt a chyfanswm nifer y plant ar gyfer pob tân gwyllt.</p> <p>Mae dysgwyr yn cael gwybod beth a ddangosir yn y tabl a bod y plant wedi tynnu llun siart bar i ddangos yr wybodaeth hon.</p> <p>Darperir siart bar a gofynnir i'r dysgwyr ystyried ac egluro eu syniadau ynghylch pa gamgymeriadau a wnaed wrth dynnu llun y siart bar.</p> <p>Nid oes teitl i'r siart bar ac ni labelwyd yr echelinau. Mae safle dau dân gwyllt wedi ei gyfnewid ac mae uchder y bar yn anghywir ar gyfer 'roced' a 'ffon wreichion'.</p>	<p>Cyfle addysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried pa gamgymeriadau a wnaed wrth dynnu llun siart bar a roddir, o set o ddata a ddarperir.</p>
----------------	--	--

Cyfnod Allweddol 2:

Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenrol trwy ystyried sut y maent yn gweld ac yn clywed tân gwyllt. Maent yn ystyried sut y mae cryfder y sain yn newid dros amser a braslunio hyn ar ffurf graff llinell. Mae dysgwyr yn ystyried siart bar, yn ei labelu ac yn defnyddio'r wybodaeth ynddo i lunio pictogram. Wedyn, maent yn ystyried pa gangymeriadau a wnaed wrth lunio siart bar o set o ddata a roddir.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:

CA2: Gwyddoniaeth: Sut mae pethau'n gweithio CA2: TGCh: Darganfod a dadansoddi gwybodaeth; Creu a throsglwyddo gwybodaeth

FfLIRh:

Datblygu ymresymu rhifyddol

Defnyddio sgiliau rhif

Defnyddio sgiliau mesur: Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd

Defnyddio sgiliau data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

<p>Sgrin 1</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon mae sgwâr ffynhonnell* sy'n cynnwys clip fideo o arddangosfa tân gwyllt.</p> <p>Gofynnir i'r dysgwyr wyllo'r clip fideo ac i rannu a thrafod eu syniadau ynglŷn â beth sydd yn digwydd. Mae'r sgwâr ffynhonnell yn darparu strwythur fel bod dysgwyr yn ystyried: Beth maen nhw'n ei weld; beth maen nhw'n ei ddyfalu; beth arall maent am ei wybod a sut y byddant yn cael gwybod hyn.</p> <p>Mae dau weithgaredd ar y sgrin. Yn y gyntaf, gofynnir i ddysgwyr ystyried y gwahanol oleuadau a welant yn y fideo a sut y maent yn gallu eu gweld. Gofynnir iddyn nhw dynnu llun ac ysgrifennu eu syniadau a hefyd i ystyried o ble arall y daw goleuni a beth fyddai'n digwydd pe na byddai goleuni. Yn yr ail weithgaredd, rhoddir tasg debyg i'r</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried sut y maen nhw'n gweld ac yn clywed tân gwyllt.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf – sgwâr ffynhonnell*.</p>
	<p>dysgwyr pan y gofynnir iddyn nhw ystyried ffynonellau sain, sut mae sain yn teithio a sut mae'r corff yn clywed seiniau. Yn y ddwy dasg, gwahoddir y dysgwyr i dynnu llun ac anodi eu syniadau.</p>	

<p>Sgrin 2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon mae clip fideo/sain o arddangosfa tân gwyllt. Gofynnir i ddysgwyr wrando ar y clip ac i ystyried sut mae'r seiniau a glywant yn newid dros amser a pham eu bod yn meddwl bod hyn yn digwydd.</p> <p>Ar y sgrin hefyd, darperir echelinau graff heb eu labelu. Mae dysgwyr yn cael eu gwahodd i labelu echelinau x ac y, egluro eu dewis o label ac i ddefnyddio'r echelinau hyn i fraslunio graff 'cryfder mewn perthynas ag amser' o'r hyn y maent yn ei glywed ar y fideo/clip sain.</p> <p>Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried ym mhle y maent wedi dechrau tynnu llun eu llinell, i ddisgrifio sut mae'r llinell yn edrych, sut y mae'n newid a pham ac i gyfleu 'stori' y graff llinell terfynol.</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried sut y mae cryfder sain yn newid dros amser ac yn braslunio hyn ar graff llinell.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf – graff byw.</p>
<p>Sgrin 3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon mae siart bar sy'n dangos hoff fathau o dân gwyllt plant dosbarth 4.</p> <p>Mae'r dysgwyr yn cael eu hannog i ateb cwestiynau am y siart bar ac mae gofyn iddynt ychwanegu teitl a labelu y ddwy echelin ar y siart bar.</p> <p>Maent yn cael eu gwahodd i ddefnyddio'r wybodaeth yn y siart bar i dynnu llun pictogram, gan sicrhau bod un symbol yn dangos mwy nag un uned ac i ddefnyddio allwedd.</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried siart bar, yn ei labelu ac yn defnyddio'r wybodaeth ynddo i dynnu llun pictogram.</p>

Sgrin 4	<p>Defnyddio'r sgrin: Teitl y sgrin hon yw 'Ble mae'r camgymeriadau yn y siart bar?'</p> <p>Darparerir tabl o ddata i'r dysgwyr sy'n dangos hoff dân gwyllt dosbarthiadau'r adran iau mewn ysgol. Maent yn cael eu hysbysu bod yr wybodaeth wedi cael ei defnyddio i lunio siart bar.</p> <p>Mae dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried ac egluro beth yw'r camgymeriadau a wnaed wrth dynnu llun y siart bar.</p> <p>Mae gweithgaredd pellach yn gwahodd dysgwyr i gasglu ac arddangos data ar gyfer eu dosbarthiadau iau eu hunain. Maent yn cael eu hannog i ystyried pa broses y byddant yn ei dilyn i gwblhau'r dasg.</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried pa gamgymeriadau a wnaed wrth dynnu llun siart bar a roddir, gan ddefnyddio set o ddata a ddarperir.</p>
------------	--	--

Cyfnod Allweddol 3:

Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol trwy ystyried sut y maent yn gweld ac yn clywed tân gwyllt. Maen nhw'n ystyried sut mae amledd y sain yn newid dros amser a'i fraslunio ar graff llinell. Mae dysgwyr yn ystyried sut i drosglwyddo gwybodaeth o dabl i graff llinell a sut i gwblhau'r tabl a'r graff.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FflIRh:

CA3: Gwyddoniaeth: Sut

mae pethau'n gweithio

CA3: TGCh:

Darganfod a dadansoddi gwybodaeth; Creu a throsglwyddo gwybodaeth

FflIRh:

Datblygu ymresymu rhifyddol

Defnyddio sgiliau rhif

Defnyddio sgiliau mesur:

Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd

Defnyddio sgiliau data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

<p>Sgrin 1</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon mae sgwâr ffynhonnell* sy'n cynnwys clip fideo o arddangosfa tân gwyllt.</p> <p>Gofynnir i'r dysgwyr wyllo'r clip fideo ac i rannu a thrafod eu syniadau ynglŷn â beth sydd yn digwydd. Mae'r sgwâr ffynhonnell yn darparu strwythur fel bod dysgwyr yn ystyried: Beth maen nhw'n ei weld; beth maen nhw'n ei ddyfalu; beth arall maent am ei wybod a sut y byddant yn cael gwybod hyn.</p> <p>Mae dau weithgaredd ar y sgrin. Yn y gyntaf, gofynnir i ddysgwyr ystyried y gwahanol oleuadau a welant yn y fideo a pham y maent yn wahanol liwiau; sut y maen nhw'n gallu gweld y lliwiau a sut mae goleuni'n teithio. Yn yr ail weithgaredd, rhoddir tasg debyg i'r dysgwyr pan y gofynnir iddyn nhw ystyried ffynonellau sain, sut mae sain yn teithio a sut mae'r corff yn clywed seiniau. Yn y ddwy dasg, gwahoddir y dysgwyr i dynnu llun ac anodi eu syniadau.</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried sut y maen nhw'n gweld ac yn clywed tân gwyllt.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf – sgwâr ffynhonnell*.</p>
--------------------	---	---

<p>Sgrin 2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon mae clip fideo/sain o arddangosfa tân gwyllt. Gofynnir i ddysgwyr wrando ar y clip ac i ystyried sut mae'r seiniau a glywant yn newid dros amser a pham eu bod yn meddwl bod hyn yn digwydd.</p> <p>Ar y sgrin hefyd, darperir echelinau graff heb eu labelu. Mae dysgwyr yn cael eu gwahodd i labelu echelinau x ac y, egluro eu dewis o label ac i ddefnyddio'r echelinau hyn i fraslunio graff 'amledd mewn perthynas ag amser' o'r hyn y maent yn ei glywed ar y fideo/clip sain.</p> <p>Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried ym mhle y maent wedi dechrau tynnu llun eu llinell, i ddisgrifio sut mae'r llinell yn edrych, sut y mae'n newid a pham ac i gyfleu 'stori' y graff llinell terfynol.</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried sut y mae amledd sain yn newid dros amser a braslunio hyn ar graff llinell.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf – graff byw.</p>
<p>Sgrin 3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Ar y sgrin hon gofynnir i ddysgwyr ystyried 'Sut ydyn ni'n llunio graff llinell?'</p> <p>Darperir tabl anghyflawn o ddata sy'n dangos uchder y mae roced yn ei gyrraedd yn yr amser ar ôl iddi gael ei chynnu. Mae dysgwyr yn cael eu gwahodd i ddefnyddio'r wybodaeth o'r tabl i dynnu llun rhan o graff llinell. Mae cwestiynau yn eu hannog i ystyried sut i labelu'r echelinau, y newidynnau dan sylw a ble ar y graff llinell i gofnodi'r wybodaeth o'r tabl.</p>	<p>Cyfle addysgu: Mae dysgwyr yn ystyried sut i drosglwyddo gwybodaeth o dabl i graff llinell a sut i gwblhau'r tabl a'r graff.</p>



	<p>Gofynnir i'r dysgwyr hefyd i ystyried sut maen nhw'n meddwl mae roced yn gweithio a pha drosglwyddiadau egni sy'n digwydd. Maent yn cael eu hysbysu bod y graff llinell yn dangos rhan o daith y roced a'u hysgogi i ystyried sut olwg fydd ar weddill y daith ac egluro eu rhesymu. Yn olaf, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddangos eu syniadau trwy gwblhau'r tabl data i ddangos beth efallai yw'r pedwar o werthoedd coll, yn eu barn nhw.</p>	
--	---	--

